Ateb yn gywir:

Ydw / Nac ydw

Mae Dwli'n dweud:



Os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn i ti sy'n dechrau â: 'Wyt ti . . ?' rhaid ateb: '**Ydw**' neu '**Nac ydw**'

1. Ateb y cwestiynau hyn drwy ysgrifennu **Ydw** neu **Nac ydw**:

   a. Wyt ti'n hoffi Dwli? _____
   b. Wyt ti'n gwylio'r teledu weithiau? _____
   c. Wyt ti'n hoffi darllen? _____
   ch. Wyt ti'n byw yn y dref? _____

2. Mae rhywun wedi gofyn cwestiynau i Dwli. Ond mae Dwli'n swil, mae eisiau i ti ysgrifennu'r atebion drosto. Mae ✓ yn golygu **Ydw**, mae ✗ yn golygu **Nac ydw**.

   a. Wyt ti'n hoffi chwythu tân? ✓ _____
   b. Wyt ti'n byw mewn tŷ? ✗ _____
   c. Wyt ti wedi bod i Aberystwyth? ✗ _____
   ch. Wyt ti'n hoffi helpu plant? ✓ _____



DWLI'S HELP FOR PARENTS:

Answering correctly: **Ydw** / **Nac ydw** (Yes / No)

Dwli says: If someone asks you a question starting with 'Wyt ti . . ?', you must answer **Ydw** or **Nac ydw**.

1. Answer these questions by writing **Ydw** or **Nac ydw**.
   a. Do you like Dwli? b. Do you watch television sometimes?
   c. Do you like reading? ch. Do you live in a town?
2. Someone has asked Dwli some questions. But Dwli's shy and wants you to write the answers for him. ✓ means **Ydw**, ✗ means **Nac ydw**.
   a. Do you like puffing fire? b. Do you live in a house?
   c. Have you been to Aberystwyth? ch. Do you like helping children?

* Now, colour in the **Ydw** / **Nac ydw** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren ag **Ydw / Nac ydw** arni ar dudalen 48.*